The Robert Jones and Agnes Hunt
Orthopaedic Hospital
NHS Foundation Trust

## If you require a special edition of this leaflet

This leaflet is available in large print. Arrangements can also be made on request for it to be explained in your preferred language. Please contact the Patient Advice and Liaison Service (PALS) email: pals.office@rjah.nhs.uk

Date of publication: January 2016
Date of review: January 2018
Author: Adrian Bailey
© RJAH Trust 2016

### Ble gallaf gael rhagor o help?

**Cymdeithas Cefnogaeth yn achos Marwolaeth Sydyn (Sudden Death Support Association)**
Cymdeithas sy'n helpu perthnasau a chyfeillion agos pobl sy'n marw'n sydyn. Rhif ffôn: 01189 889797

**Y Samariaid** - gwasanaeth 24 awr ar gyfer pobl mewn gofid. Rhif ffôn: 0845 7909090

**Cymdeithas Cenedlaethol y Gwasanaethau Profedigaeth (National Association of Bereavement)** yn rhoi pobl mewn cysylltiad â gwasanaethau lleol mewn perthynas â phrofedigaeth/cynghori. Rhif ffôn: 0207 2471080

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**
Help ariannol a chyngor ynghylch budd-daliadau. Rhif ffôn: 01743 266000
Gwefan: www.dwp.gov.uk Mae taflen D49 'Beth i'w wneud ar ôl i berson farw yng Nghymru a Lloegr' yn arbennig o ddefnyddiol.

**The Robert Jones and Agnes Hunt**
**Orthopaedic Hospital NHS Foundation Trust,**
Oswestry, Shropshire SY10 7AG
Tel: 01691 404000
**www.rjah.nhs.uk**

designed by Medical Illustration

Ymddiriedolaeth GIG
Ysbyty Orthopaedig ac Ardal
Robert Jones ac Agnes Hunt

# Taflen wybodaeth i gleifion

## Cyngor a Chymorth yn Dilyn Marwolaeth yn yr Ysbyty



## Cyflwyniad

Pan fydd rhywun yn marw, bydd yn rhaid gwneud llawer o benderfyniadau a threfniadau. Yn anffodus, yn aml bydd yn rhaid gwneud y rhain ar adeg o gryn drallod personol. Bwriad y daflen hon yw'ch helpu i ymdopi â'r trefniadau sydd angen eu gwneud yn syth.

Os ydych yn dymuno siarad â meddyg neu aelod o'r staff nyrsio ar unrhyw adeg, mae pob croeso i chi gysylltu â ni, a gofynnwch am y ward lle digwyddodd y farwolaeth (mae'r cyfeiriad a'r rhif ffôn ar y dudalen gefn).

## Beth fydd yn digwydd yn yr ysbyty?

Bydd nyrs y ward yn trefnu amser cyfleus gyda chi i chi gasglu eiddo eich perthynas a'r dystysgrif feddygol sy'n nodi achos y farwolaeth. Gall ef neu hi hefyd adael i chi weld y corff os dymunwch. Os byddai'n well gennych beidio â dychwelyd i'r ward, rhowch wybod i'r nyrs, a bydd yn trefnu i gwrdd â chi rywle arall yn yr ysbyty.

## Beth fydd yn digwydd pan roddir gwybod i'r Crwner am farwolaeth?

Dan rai amgylchiadau, gallai fod angen i'r meddyg roi gwybod i'r Crwner am y farwolaeth. Yna, efallai y bydd ef neu hi yn gallu rhoi'r dystysgrif feddygol sy'n nodi achos y farwolaeth i chi.

Pan ddigwydd hyn, bydd y Crwner yn cysylltu â'r perthynas agosaf. Yn anffodus, bydd hyn yn achosi oedi yn y trefniadau angladdol. Os bydd angen cyngor neu wybodaeth arnoch am farwolaeth y rhoddwyd gwybod amdani i'r Crwner, cysylltwch â swyddfa'r Crwner:

H.M. Coroner's Officer, West Mercia Constabulary, Police Headquarters, Clive Road, Monkmoor, Shrewsbury, SY2 5RW
Rhif ffôn: **01743 237445** (oriau swyddfa 8am – 4pm rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener)

## Amlosgi neu gladdu?

Bydd angen i chi gysylltu â threfnwr angladdau. Gallwch ddod o hyd iddynt yn y Tudalennau Melyn. Byddant yn hapus i drafod yr holl opsiynau â chi a bydd ef neu hi'n cymryd y cyfrifoldeb llawn dros drefnu'r angladd ar eich rhan.

Os amlosgi yw'r dewis, byddwch gystal â rhoi gwybod i'r ysbyty cyn gynted â phosib er mwyn paratoi Tystysgrif Amlosgi. Os rhoddwyd gwybod i'r Crwner am y farwolaeth, bydd ef neu hi'n rhoi un i chi yn hytrach na'r ysbyty.

## Sut ddylwn i gofrestru'r farwolaeth?

Dylech gofrestru'r farwolaeth o fewn pum niwrnod. Os ydych chi'n cofrestru mewn unrhyw ran o Swydd Amwythig, dylech ffônio **0345 678 9016** rhwng 6am a 6pm, rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener, i drefnu apwyntiad. Hefyd, medrwch wneud apwyntiadau ar y safle we: **http://forms.shropshire.gov.uk/registrars/selfservice/default.aspx**

Gallwch gofrestru'r farwolaeth y tu allan i Swydd Amwythig, ond efallai y bydd ychydig o oedi wrth gael tystysgrifau marwolaeth, oherwydd bydd yn rhaid eu postio i chi.

Rydych yn gymwys i gofrestru'r farwolaeth os:

- ydych yn berthynas, neu
- os oeddech yn bresennol ar adeg y farwolaeth, neu
- os ydych yn gyfrifol am wneud y trefniadau angladdol.

## Pa wybodaeth fydd ei hangen ar y Cofrestrydd er mwyn cofrestru'r farwolaeth?

- Y dystysgrif feddygol sy'n nodi achos y farwolaeth a gawsoch yn yr ysbyty.
- Dyddiad y farwolaeth a lle y digwyddodd.
- Cyfeiriad arferol yr ymadawedig a'i (d)dyddiad a man geni.
- Enw llawn yr ymadawedig (gan gynnwys ei henw cyn priodi os yw'r ymadawedig yn wraig briod).
- Gwaith yr ymadawedig (gan gynnwys enw a gwaith y gŵr os yw'r ymadawedig yn wraig briod).
- Os oedd yr ymadawedig yn briod, enw a dyddiad geni'r priod sy'n dal yn fyw.

Gall hefyd fod yn ddefnyddiol mynd â'r canlynol gyda chi. Bydd o gymorth i'r Cofrestrydd i'ch helpu chi i gymryd y camau nesaf wrth roi trefn ar faterion yr ymadawedig:

- Cerdyn meddygol yr ymadawedig.
- Tystysgrif geni'r ymadawedig.
- Llyfr pensiwn yr ymadawedig, neu fanylion unrhyw fudd-daliadau neu lwfansau roedd yr ymadawedig yn eu derbyn gan y wladwriaeth.

## Sut ydw i'n cael tystysgrif marwolaeth?

Bydd y Cofrestrydd yn rhoi Tystysgrif Cofrestru Marwolaeth i chi. Mae hyn at ddibenion Nawdd Cymdeithasol yn unig, i roi gwybod iddynt am y farwolaeth, a gall eich galluogi i wneud cais am grant marwolaeth. Darllenwch y wybodaeth ar gefn y dystysgrif.
Os oes yna unrhyw beth sy'n berthnasol i chi, llenwch y dystysgrif a'i dangos i'ch swyddfa Nawdd Cymdeithasol.

Efallai y bydd angen copïau o'r dystysgrif marwolaeth at ddibenion profiant neu i hawlio pensiwn neu yswiriant. Codir tâl bychan, ac efallai yr hoffech ofyn am sawl copi ar y tro, gan y gallai gostio mwy i ofyn am gopïau ymhellach ymlaen.

Bydd y Cofrestrydd hefyd yn rhoi ffurflen werdd i chi sy'n awdurdodi claddu neu amlosgi (Ardystiad ar gyfer claddu neu amlosgi). Bydd angen rhoi hon i'ch trefnwr angladdau cyn gynted ag y bo modd er mwyn iddo fynd ymlaen i drefnu'r angladd.

## A ellir cynnig y corff er budd eraill?

Efallai bod yr ymadawedig wedi nodi yn ei (h)ewyllys ei fod/bod am i'w gorff/chorff gael ei gyflwyno ar gyfer addysgu ac ymchwil meddygol. Os felly, a fyddech cystal â chysylltu â Mr Dave Adams, rheolwr y labordy, ar **01691 404157**.

## Sut gall yr ysbyty fy helpu i ymdopi â marwolaeth a phrofedigaeth?

Gall yr ysbyty helpu yn y ffyrdd canlynol:

- Bydd y meddygon a'r nyrsys a fu'n gofalu am eich perthynas neu'ch cyfaill yn fwy na pharod i drafod unrhyw faterion a all fod yn peri pryder i chi.
- Bydd caplan yr ysbyty ar gael i'ch gweld os dymunwch.
- Gall y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion (PALS) helpu i roi perthnasau mewn cysylltiad ag asiantaethau pellach sy'n cynnig cefnogaeth a help â materion fel cofrestru'r farwolaeth, dychwelyd eiddo ac ati.

Os hoffech fanteisio ar unrhyw un o'r gwasanaethau hyn, siaradwch â'r nyrs sy'n gyfrifol am y ward.

## Ble gallaf gael rhagor o help?

**Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth** – ar gyfer cymorth a chyngor cyffredinol: Oswestry and Border Citizens Advice Bureau, 16 Lower Brook Street, Oswestry.
Rhif ffôn: **08444 991100**

**CRUSE** – rhywun i siarad â nhw, ac am gyngor a chymorth ymarferol: Llinell Ofal Profedigaeth Cruse: **0844 477 9400**. Cruse yn Swydd Amwythig; **0845 6066812**.
Cruse ym Mhowys: **01686 610220**.